**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET**
***CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE***

PWNC/SUBJECT:
**Mabwysiadu Peilot Pwllheli - Strategaeth Addasu Newid Hinsawdd**
***Adoption of Pwllheli Pilot Climate Change Adaptation Strategy***

AELOD CABINET/CABINET MEMBER: Cyng. John Wynn Jones

PENDERFYNIAD/DECISION:
Mabwysiadu Peilot Pwllheli - Strategaeth Addasu Newid Hinsawdd
*Adopt the Pwllheli Pilot Climate Change Adaptation Strategy*

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Mae llifogydd yn peri bygythiad pwysig i Gymru, fydd yn cynyddu dros amser oherwydd bygythiad o newid yn yr hinsawdd.
Yn ddiweddar, gwelwyd cam mwy o ran rheolaeth llifogydd gan Llywodraeth Cymru o ddull traddodiadol yn seiliedig ar 'Amddiffyn' i ddull sy'n seiliedig ar 'Reoli risg', sy'n lleihau risgiau a chanlyniadau llifogydd. Y 'Rhaglen Dulliau Newydd', ac yn fwy diweddar, Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yw prif yrwyr y newid hwn.
Mae Prosiect Peilot Pwllheli yn un o dri astudiaethau Peilot yng Nghymru. Derbyniodd y prosiect arian gan Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.
Amcanion y prosiect oedd cyfuno gwaith amddiffyn gyda mesurau rheoli risgiau llifogydd, gwerthuso amgylcheddol ac ymgysylltu cymunedol, er mwyn penderfynu ar Gynllun Rheoli Risg Llifogydd cynaliadwy i Bwllheli, sy'n rheoli risg llifogydd lleol wrth fod yn dderbyniol yn dechnegol, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd.
Bu i strwythur prosiect Peilot Pwllheli amlygu gweithio mewn partneriaeth a chydweithio rhwng Awdurdodau Rheoli Risg, a sefydlwyd yn unol â gofynion Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a oedd yn cynnwys amryw o aelodau gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Dŵr Cymru.
Datblygwyd Prosiect Peilot Pwllheli i gyd-fynd â chynlluniau Rheoli Llifogydd lefel uwch, sef Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch a Chynlluniau Rheoli Traethlin, ond mae'n darparu agwedd mwy penodol a manwl ar reoli risg llifogydd yn ardal Pwllheli.
Mae'r "Strategaeth Addasu Newid Hinsawdd - Peilot Pwllheli wedi cael ei chylchredeg yn electroneg i'r aelodau lleol 17/04/2015", fel dogfen gefndir.

*Flooding poses an important threat to Wales, which will increase over time with the threat of climate change*
*There has been a recent accelerated move by the Welsh Government from a traditional 'Defence' based approach to flood management to a 'Risk management' based approach, which minimises both the risks and consequences of flooding. The 'New Approaches Programme', and more recently the Flood and Water Management Act 2010 are the primary drivers of this change.*
*The Pwllheli Pilot Project is one of three Pilot studies in Wales. The project received funding from the Welsh Government, Gwynedd Council, Environment Agency Wales and the Countryside Council for Wales.*
*This Project's aims were to combine capital defence works with wider flood risk management measures, environmental appraisal and community engagement, to determine a sustainable Flood Risk Management Plan for Pwllheli which manages local flood risk while being technically, environmentally, economically and socially acceptable.*
*The Pwllheli Pilot project structure exemplified partnership working and collaboration between Risk Management Authorities, which was set up in line with the requirements of the Flood and Water Management Act 2010, and included a variety of members including Welsh Government, Countryside Council for Wales, Environment Agency Wales and Dwr Cymru/Welsh Water.*

*The Pwllheli Pilot Project has been developed to align with higher level Flood Management plans, namely Catchment Flood Management Plans and Shoreline Management Plans, but provides a more specific and detailed approach to flood risk management in the Pwllheli area.*

*The Pwllheli Pilot - Climate Change Adaptation Strategy has been electronically circulated to the local members on 17/04/2015, as a background document.*

---

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

Bu i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Cynllun Rheoli Traethlin 2 (CRhT2) ym mis Ionawr 2013.

*The Shoreline Management Plan 2 (SMP2) was adopted by Gwynedd Council in January 2013.*

---

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. **Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-**

"Mae ymateb i her newid hinsawdd wedi bod yn destun gwaith gan y Cyngor ers rhai blynyddoedd ac mae hyn yn amlwg yn her mewn rhai cymunedau yn fwy nag eraill. Mae'r cyfle sydd wedi bod i wneud gwaith ym Mhwllheli wedi bod o fudd er mwyn dangos pwysigrwydd cydweithio ar draws asiantaethau a dysgu hefyd gyda golwg ar ymestyn y math hwn o ymarferiad i ardaloedd eraill."

*"Responding to the challenge of climate change has been part of the Council's work for some years, and this is clearly a challenge in some communities more than others. The opportunity that has arisen to work in Pwllheli has been beneficial in demonstrating the importance of collaboration across agencies, and also learning with a view to expand this type of exercise to other areas."*

**2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-**

Bu proses ymgynghori eang ynglyn a datblygu y strategaeth ar gyfer ardal Pwllheli. Mae'r argymhellion yn y daflen yn adlewyrchu canlyniadau'r ymgysylltu yma. Nid oes gennyf sylwadau penodol o safbwynt priodoldeb.

*"There was a broad consultation process regarding developing the strategy for the Pwllheli area. The recommendations in the sheet reflect the results of this engagement. I do not have specific observations regarding propriety."*

**3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

*Nothing to add from a financial propriety perspective*.

---

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Nid oes barn wedi ei dderbyn, er eu bod wedi bod yn gysylltiedig â'r Cynllun ar hyd y daith.

*No view has been received, although they had been associated with the Plan along the way."*

---

| | |
|---|---|
| LLOFNOD /SIGNED | DYDDIAD/DATE – 05/05/2015 |

